

COFNODION CYFARFOD ARBENNIG O GYNGOR CYMUNED Y BORTH A GYNHALIWDYD YN
Y NEUADD GYMUNEDOL, NOS LUN, YR 17EG O HYDREF 2022 AM 19.00 O'R GLOCH

<u>PRESENNOL</u>	<u>CADEIRYDD</u>	H HUGHES
		R DALTON
		A HUGHES
		G B JONES
		A J MORRIS
		N SALMON
		A THOMAS
		C BAINBRIDGE
		D PRYCE JONES
<u>YN BRESENNOL</u>	<u>CLERC</u>	I RAILTON
		3 AELOD O'R CYHOEDD

YMDDIHEURIADAU

143. Ymddiheurodd y Cynghorwyr Williams a Griffiths am na allent ddod i'r cyfarfod. Ymunodd y Cynghorydd Salmon dros Zoom. Ymunodd y Cynghorydd Thomas â'r cyfarfod am 19.12. Nid oedd modd clywed y Cynghorydd Salmon ond datryswyd y broblem am 19.10.

CADARNHAU BOD HWN YN GYFARFOD CYFREITHLON

144. Cadarnhaodd y Cynghorydd H Hughes wrth agor y cyfarfod fod hwn yn gyfarfod cyfreithlon. Nodir hyn yn 'Neddf Llywodraeth Leol 1972, Atodlen 12, Paragraff 26, Adran 2E'. Aeth y Clerc ati hefyd i gadarnhau hyn gydag Un Llais Cymru, ac mae gennym e-bost sy'n cadarnhau hyn. Mae hyn yn caniatáu i'r Cadeirydd alw cyfarfod yn gynt na'r 3 diwrnod llawn arferol os ystyrir bod y mater yn ddigon pwysig.

Galwyd y cyfarfod yn dilyn cyfarfod gyda Chyfreithwyr Morris and Bates ar y 13eg o Hydref, pan ddwedwyd wrth Gyngor Cymuned y Borth y GALLAI fod yn atebol petai rhywun yn baglu ar y tir dan sylw. Er nad Gyngor Cymuned y Borth yn dechnegol yw'r perchnogion, am fod cryn drafodaeth ynghylch perchnogaeth, gallai fod yn gyfrifol os nad yw'n gwneud y tir yn ddiogel i'r cyhoedd gan y gŵyr pobl ei fod yn beryglus.

CYFRANOGIAD Y CYHOEDD

145. Ni chafwyd dim sylwadau gan y cyhoedd.

DATGAN BUDDIANNAU

145. Atgoffwyd y Cynghorwyr i ddatgan buddiant dan unrhyw faterion perthnasol a allai godi yn ystod y cyfarfod. Gofynnodd y Cynghorydd Bainbridge i'r Cynghorydd Dalton a oedd hi'n dymuno datgan buddiant gan fod ei heiddo yn sefyll gyferbyn â'r safle dan sylw, a bod eraill wedi dod ati i ofyn a oedd angen datgan diddordeb. Dywedodd y Cynghorydd Dalton nad oedd hi'n teimlo bod angen iddi wneud hynny. Dywedodd y Cynghorydd Pryce Jones fod pob aelod a oedd yn bresennol yn defnyddio'r tir. Dywedodd y Cynghorydd Morris ei fod yn hapus i'r Cynghorydd Dalton barhau i fod yn bresennol.

Datganodd y Cynghorydd H Hughes (Cadeirydd) fuddiant personol am ei fod yn Gynghorydd Sir, ond ni ddatganodd fuddiant a oedd yn rhagfarnu.

COFNODION Y CYFARFOD ARBENNIG

146. Aeth y Cynghorydd H Hughes ati i grynhoi'r mater drwy ddarllen llythyr a anfonwyd yn wreiddiol at Huw Bates.

Aeth y Clerc ati i grynhoi'r mater drwy ddarllen cofnodion y cyfarfod â Huw Bates a anfonwyd at y Cynghorwyr ymlaen llaw. Y cyngor gan Huw Bates oedd i godi'r ffens Heras 'heb ragfarnu', ar y ddealltwriaeth bod hyn cael ei wneud i ddiogelu'r cyhoedd, ac NID i gadarnhau pwy sy'n berchen ar y tir.

Dywedodd y Cynghorydd H Hughes fod y cyfreithwyr wedi cadarnhau nad oedd gan y preswylwyr fuddiant yn y tir.

Dywedodd y Cynghorydd B Jones iddo gael cyngor gan y cyfreithwyr i'r perwyl y dylid codi'r ffens. Serch hynny, dylai hyn ddigwydd ar y cyd â Chyngor Sir Ceredigion.

Gofynnodd y Cynghorydd Bainbridge am gadarnhau ynglŷn â pha ardal oedd dan sylw, a nodwyd mai'r llwybr concriid a oedd yn rhedeg rhwng y ddwy ardal laswelltog oedd hi.

Dywedodd y Cynghorydd Salmon y byddai ffensys Heras yn gwneud pethau'n fwy peryglus fyth oherwydd gwyntoedd cryfion a stormydd.

Dywedodd y Cynghorydd B Jones y dylem ddilyn cyngor y cyfreithwyr.

Gofynnodd y Cynghorydd A Hughes y cwestiynau canlynol: 1) Ydy'r Cyngor yn mynd i dderbyn y cyngor gan y cyfreithwyr?

2) Ai'r opsiwn ffensio a awgrymir yw'r opsiwn lleiaf peryglus?

Dywedodd y Cynghorydd Dalton y byddai ffensys Heras yn costio llawer, o bosib yn £300 y ffens, ac y gallai hyn fod am gyfnod amhenodol.

Yn ôl y Cynghorydd B Jones, mae'r rhain yn ffensys safonol a chânt eu defnyddio ym mhobman. Fel corff, mae angen i ni dderbyn cyngor ein cyfreithwyr, ond mae angen i'r ddau gorff (Cyngor Cymuned y Borth a Chyngor Sir Ceredigion) dalu amdano.

Dywedodd y Cynghorydd A Morris fod pobl wedi sôn am y meini copa yn ystod y drafodaeth. Mae hwn yn fater arall.

Gofynnodd y Cynghorydd Dalton a fyddai modd gosod ffens i amgáu'r ardal a chael adeiladwr i wneud rhywfaint o waith atgyweirio dros dro. Trafododd y grŵp sut y gallai hyn gostio mwy.

Mynegodd y Cynghorydd Bainbridge bryderon am osod ffin o gwmpas rhan o'r traeth.

Awgrymodd y Cynghorydd A Morris y gellid gosod ffens o gwmpas y llwybr yn unig, yn hytrach na'r ardal gyfan. Yn ei farn ef, byddai ffensys Heras yn ormod o beth. Yn rhan o'r drafodaeth crybwyllwyd y ffens bolardiau oren isel. Dywedodd y Cynghorydd A Morris y dylai'r ymateb fod yn gymesur â'r risg. Dywedwyd y dylid cael rhwystr gyn uchod â'ch gwast ac y dylid gwneud gwaith atgyweirio dros dro bob yn dipyn.

Soniodd y Clerc am Adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, sy'n datgan bod cyfyngiad ar y gwariant ar dir nad yw'n eiddo i'r cyngor gan ei fod yn arian cyhoeddus. Cododd aelod o'r cyhoedd (James Davies) ei law i ddweud ei fod newydd wirio hyn, ac ategodd mai'r cyfyngiad a hyn o bryd yw £8000.

Eglurodd y Cynghorydd H Hughes fod y cyfreithwyr yn awgrymu mai'r perchnogion yn ôl pob tebyg oedd Cyngor Sir Ceredigion, ond ategwyd bod hynny'n risg. Yna trafodwyd ceisiadau cynllunio hanesyddol a wnaed gan Gyngor Sir Ceredigion.

Gofynnodd y Cynghorydd Bainbridge i'r Cynghorydd Jones a'r Cynghorydd Morris a oeddent yn cofio beth ddigwyddodd pan godwyd cerflun 'Clychau Aberdyfi'. Cafwyd trafodaeth yn dilyn hyn am y cerflun sy'n cael ei osod.

Dywedodd y Cynghorydd Salmon mai un farn gyfreithiol oedd gosod y ffensys Heras, ond ategodd fod opsiynau cyfreithiol eraill ar gael.

Gofynnodd y Cynghorydd Bainbridge a fyddai modd defnyddio deunyddiau eraill a fyddai'n fwy ecogyfeillgar (i drwsio'r llwybr).

Gofynnodd y Cynghorydd H Hughes i'r grŵp a oedd am i'r cyfreithwyr weithredu ar ei ran. Cadarnhaodd aelodau'r grŵp mai dyma oedd eu dymuniad.

147.

Cynhigiodd y Cynghorydd A Hughes fod Cyngor Cymuned y Borth yn mynd yn ôl at y cyfreithwyr i gynnal trafodaethau fel a ganlyn:

- 1) Gofyn a fyddai modd dod â'r drafodaeth gychwynnol am berchnogaeth i ben am y tro er mwyn mynd i'r afael â materion mwy brys.
- 2) Gofyn am gydweithrediad y Cyngor Sir o ran y cyfrifoldebau a rennir mewn perthynas â'r llwybr, a hynny heb ragfarnu. Yn y cyfamser, gall Cyngor Cymuned y Borth ymchwilio i sut y gellir gosod ffens i amgáu'r ardal os yw'n gwneud hynny heb gymorth Cyngor Sir Ceredigion. Yr hyn sy'n bwysig yw amgáu'r tir anniogel a'i wneud yn ddiogel eto. Mae angen diogelu'r cyhoedd. Efallai y bydd gan Gyngor Sir Ceredigion ffensys ac ati am bris llawer is. Rydym yn awyddus i gydweithio â'r Cyngor Sir, nid gweithio'n groes iddo.

Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Bainbridge. Pleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig. Bydd y Clerc yn ysgrifennu at Huw Bates y bore canlynol.

148.

Cadarnhaodd y Cynghorydd A Hughes ei bod hi a'r Cynghorydd Salmon wedi ysgrifennu at Gyngor Sir Ceredigion i drafod y meini copa peryglus, a dywedwyd bod y Cyngor Sir bellach wedi gwaredu â nhw.

Soniodd y Cynghorydd Bainbridge fod y gwyliau hanner tymor yn agosáu a'i fod yn awyddus i sicrhau bod plant a theuluoedd yn ddiogel yn yr ardal dan sylw. Gofynnodd y Cynghorydd Bainbridge hefyd i'r Cynghorydd H Hughes barhau i fynd ar drywydd y mater yn rhinwedd ei swydd fel Cynghorydd Sir.

Gofynnodd y Cynghorwyr i gyd a fyddai modd ailasesu'r sefyllfa ymhen 14 diwrnod o'r cyfarfod (yr 31ain o Hydref).

Yn ôl y Cynghorydd A Hughes, os nad oeddem yn codi ffens yn syth, byddem yn mynd yn groes i gyngor y cyfreithwyr.

Crybwyllodd y Cynghorydd Dalton a'r Cynghorydd Morris mewn trafodaeth nad ydyn nhw o'r farn bod y llwybr yn llawer gwaeth (mewn mannau) na rhai o'r palmentydd eraill yn y pentref.

Gofynnodd aelod o'r cyhoedd (Graham Taylor) a fyddai modd gwneud gwaith atgyweirio dros dro, ond dywedodd y Cynghorydd Bainbridge y gall hyn weithiau waethgu'r sefyllfa.

Mynegodd y Cynghorydd Salmon bryder bod y cyfreithiwr efallai'n troedio'n rhy ofalus.

Daeth y Cynghorydd H Hughes â'r cyfarfod i ben gan y cytunwyd ar y camau i'w cymryd a bod yr holl drafodaethau ar fin gychwyn. Daeth y cyfarfod i ben am 20.23.